

Rhan 1:

Yn ôl Donaldson (2015), mae'r cwricwlwm yn cael i gynllunio i gynnwys pynciau sy'n cael i addysgu dros gyfnod yn lleoliadau cynradd ac uwchradd. Mae Donaldson (2015) hefyd yn dweud mai'r cwricwlwm yn cael i drefnu trwy sgiliau allweddol, capasiti neu gymwyseddau sy'n cael i ddatblygu yn blant a phobl ifanc. Yn debyg i Donaldson (2015), creda Young (2014) bod y cwricwla yn strwythur sy'n cynnwys gweithgareddau a'r bobl sy'n gymhleth, fel athrawon cynradd a disgyblion, ond hefyd y bobl sy'n cynllunio'r cwricwla. Dywed Gov.UK (dim dyddiad) mai'r cwricwla yna i arwain athrawon i ddarparu safonau a phynciau i bob plentyn i ddysgu'r un peth ac i gyflawni yn y pwnc. Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg sydd yn cael i nodi yn Gonfensiwn Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), sef erthygl 28 y confensiwn (Comisiynydd Plant Cymru, 2022).

Mae'r cwricwla newydd i Gymru yn cael i ddiwygio oherwydd mae'r byd gwaith, technoleg a'r gymdeithas yn newid yn gyson (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad). Felly, oherwydd hyn, mae angen i'r cwricwlwm i Gymru paratoi plant a phobl ifanc i ddatblygu safonau uwch. Noda Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) bod y cwricwla yn cael i gynllunio gan yr ysgolion ei hunain, gan ddefnyddio'r byd i gynllunio.

I ddechrau, dywed Sage-Answer (2019) bod dysgu plentyn canolig yn golygu bod plant yn cymryd rheolaeth dros ddysgu eu hunain. Mae ymarferwyr yna i ddarparu cefnogaeth a hwyluso dysgu'r plant, ond y plant sy'n penderfynu'r cyfeiriad eu dysgu gan ddilyn eu chwilfrydedd, diddordebau a'u angerddion naturiol. Gan gofio hyn, yn erthygl 29 y CCUHP dylai addysgu datblygu personoliaeth a thalent pob plentyn i'r eithaf (Comisiynydd Plant Cymru, 2022).

Noda Raising Children (2022) y pwysigrwydd o dilyn y plentyn, gan fod plant yn dysgu y fwyaf trwy gwneud gweithgaredd neu chwarae mae ganddyn nhw diddordeb ynddo. Wrth dilyn chwarae ac addysg ei hun, mae plant yn meithrin sgiliau cymdeithasol a dysgu sut i ddylanwadu ar bethau o'u cwmpas (Raising Children, 2022). Cytuna Twinkl (dim dyddiad) bod dilyn y plentyn yn rhoi sgiliau cymdeithasu i blant, ond hefyd creda Twinkl (dim dyddiad) bod plant yn meithrin creadigaeth. Mae creadigaeth yn ei helpu i fynegi eu hunain a'u syniadau yn y ffordd y maent yn chwarae'n rhydd a gyda phethau sy'n eu cyffroi (Twinkl, dim dyddiad). O fewn y Cwricwlwm i Gymru, mae ymarferwyr a'r hawl i gynllunio cwricwlwm ei hun, sydd yn golygu mae'r lleoliadau gallu dilyn

diddordebau'r plentyn er mwyn addasu cwricwlwm i'r plentyn canolig (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad).

Wrth ystyried dilyn y plentyn, mae athroniaeth Reggio Emilia yn gweithredu yn yr un modd. Yn ôl Wien (2015) o fewn lleoliadau Reggio Emilia, mae plant ac ymarferwyr yn alluog, dyfeisgar, pwerus ar gyfer eu profiadau eu hunain. Dywed Arseven (2014) bod Reggio Emilia yn ddull sydd yn canolbwyntio ar y plant, yn amgylcheddau sy'n darparu profiadau rhydd er mwyn i arbrofi a bod yn greadigol. Aeth Arseven (2014) ymlaen i ddweud bod plant gyda'r cyfle i fynegi ei hun mewn gwahanol ffurfiau symbolaidd, hynny yw trwy beintio lluniau, cerflunio a chware gemau dramatig, sydd yn cael i enwi fel "the hundred language of a child."

Dywed Early Years Careers (2016), bod hyfforddiant ymarferwyr yn rhan hanfodol yn y sector Blynyddoedd Cynnar, er mwyn ddatblygu dealltwriaeth a darparu amgylchedd diogel a gofalgwr i bob plentyn. Awrgryma Early Years Careers (2016) dylai ymarferwyr cyflawni hyd at 25 awr o hyfforddiant mewn blwyddyn er mwyn gwneud datblygiad proffesiynol parhaus. Noda Early Years Careers (2016) y 5 cwrs mwyaf pwysig o fewn y Blynyddoedd Cynnar sef; cymorth cyntaf paediatreg, amddiffyn plant, rheoli ymddygiad, hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch. Dywed Professional Association for Childcare and Early Years (PACEY) (dim dyddiad) bod datblygiad proffesiynol parhaus yn gyfuniad o ddulliau, syniadau a thechnegau sydd yn helpu i ddeall mwy am yr amgylchedd gwaith, a sut i wneud y gofal o safon dda yn y safle gwaith. Ar y cyfan, dywed PACEY (dim dyddiad) mae hyfforddiant ac ymarfer yn fantais i wella'r gwasanaeth, gofal ac addysg sy'n cael i ddarparu i blant a theuluoedd, a deall bod pob plentyn yn unigryw. Mae'n hyfforddiant hefyd yn rhoi gwybodaeth ddiweddaraf i'r sefydliad am y newidiadau diweddaraf am ddeddfwriaethau a datblygiadau cymdeithasol ac economaidd sydd yn gallu effeithio ar yr amgylchedd gwaith (PACEY, dim dyddiad).

Fodd bynnag, un o'r argymhellion nododd Siraj a Kingston (2014) yn y cyfrif stoc annibynnol, oedd targedu hyfforddiant a chefnogaeth, sy'n ymwneud yn uniongyrchol â hyfforddiant a chymorth penaethiaid, athrawon ac ymarferwyr o fewn y cyfnod sylfaen. Dywed Siraj a Kingston (2014) bod yr argymhell yna yn adfyfyrio dealltwriaeth i wella'r safonau o Ddysgu a chynyddu cyflawniadau'r plant. Awrgryma Siraj a Kingston (2014) dylai pob lleoliad cael i gefnogi i ymestyn ei ddatblygiad proffesiynol parhaus i

bob aelod o'r tîm. Dywed Education Business (2017) bod mwy na 600 o ysgolion yn Lloegr yn gwario llai o arian ar ddatblygu eu hathrawon oherwydd y diffyg cyllid. Aeth Education Business (2017) ymlaen i ddweud, dylai datblygiad proffesiynol parhaus cael i ffocysu ar wella disgyblion, ond mae'r arian sydd wedi cael i wario ar hyfforddiant yn is iawn am bob plentyn. Noda High Speed Training (2018), os mae hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus yn cael i anwybyddu, fe gall hyn cael effeithiau difrifol fel perfformiad, gwaith tîm, ar allu i ddenu a chadw gweithwyr da.

Yn debyg i sefyllfa yn Lloegr, mae Institute of Welsh Affairs (2019) yn dweud bod addysg yng Nghymru yn agosáu at argyfwng, oherwydd diffyg cyllideb sy'n cael i ddarparu i'n systemau addysg. Yn bennaf, mae athrawon ac aelodau o'r tîm yn gweithio o fewn cyfyngiadau penodol, fel diffyg adnoddau, cyllid ac ymyrraeth yn weithgareddau dydd i ddydd (Institute of Welsh Affairs, 2019). Yn rhan o'r cwricwlwm newydd i Gymru, noda Llywodraeth Cymru (2019), erbyn 2023 dylai cymwysterau, hyfforddiant ac adnoddau cael i gynhyrchu i adfyfrio ar y cwricwlwm.

Awgryma Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) dylai chwarae fod yn hanfodol o ran cwricwla a dysgu'r plant. Yn ôl Bruce (2012) mae dysgu trwy chwarae yn helpu plant i wneud cysylltiadau gyda'i dysgu, a hefyd helpu'r plant i arwain addysg ei hun. Roedd y Cyfnod Sylfaen yn gwricwla sy'n canolbwyntio ar chwarae fel dull dysgu, lle mae gweithgareddau a gyfeirir gan ymarferwyr yn cael eu cydbwysu â'r rhai a gychwynnir gan blant (Wainwright *et al.* 2018). Aeth Wainwright *et al.* (2018) ymlaen i ddweud mai'r awyr agored yn rhan bwysig i'r blynyddoedd cynnar er mwyn iddyn nhw ddysgu a chael profiadau. Noda Chware Cymru (2014) trwy chwarae mae plant yn datblygu gwytnwch, hyblygrwydd sydd yn cyfryngu i les corfforol ac emosiynol. Dywed Moyles (2014) mae chwarae wedi gwreiddio ym mholisiau cwricwlwm y blynyddoedd cynnar mewn llawer i genhedloedd ar draws y byd. Yn dilyn erthygl 31 y CCUHP, mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio a chwarae, ac ymuno mewn gweithgareddau (Comisiynydd Plant Cymru, 2022).

Yn debyg i'r cyfnod sylfaen i Gymru, mae'r cwricwlwm yn Seland Newydd sef Te Whariki yn debyg ar sail chwarae a rhyngweithiad rhwng y plant a'r ymarferwyr (Blaklock, 2010). Dywed Blaklock (2010) bod plant yn dysgu trwy ryngweithio a chyfrannu gydag oedolion a chyfoedion, ond hefyd trwy arbrofid ac adfyfrio'r plentyn. Mae theori cymdeithas-ddiwylliannol Vygotsky yn dweud bod datblygiad yn dibynnu ar

ryngwethio gydag eraill a'r profiadau diwylliannol mae'r gymdeithas yn darparu i greu golwg ei hun o'r o'n gwmpas (McLeod, 2014). Aeth McLeod (2014) ymlaen i ddweud bod Vygotsky yn credu bod plant yn caffael ffurfiau o feddwl a bihafio gan ryngweithio gyda pherson mwy gwybodus.

Fodd bynnag, mynna McInnes et al. (2011) bod yna pryderon ynghylch a dealltwriaeth ymarferwyr o chwarae a dysgu, ac mae sut mae hyn yn gallu dylanwadu ar ryngweithiad addysgol gyda phlant a sut mae plant yn gwahaniaethu rhwng chwarae ac nid gweithgareddau chwarae. Noda Whitehead *et al.* (2012) bod yna anawsterau gydag ymarferwyr y blynyddoedd cynnar am ddatblygu ymarfer a chefnogaeth i ddysgu plant trwy chwarae, oherwydd y pwysau o'r amlinellau'r cwricwlwla a chwrdd â safonau y Llywodraeth. Mae'r anawsterau yma oherwydd y diffyg hyfforddiant, cyllid a chymwysterau o fewn y blynyddoedd cynnar ac addysg, felly nad ydy ymarferwyr yn cael i gefnogi gyda gwybodaeth ddiweddaraf (Whitehead, et al. 2012).

Rhan 2:

Dywed Early Years Matters (dim dyddiad) bod pob plentyn yn unigryw, yn dysgu'n barhaus ac sy'n gallu fod yn wydn, galluog, hyderus a hunan sicr. Noda Early Years Matters (dim dyddiad) bod plant yn datblygu a thyfu yn rhediad ei hun. Noda Borkett (2018) bod y plentyn yn unigryw yn gweld pob plentyn yn gymwys ac yn alluog beth bynnag yw ei ethnigrwydd, gallu, rhyw, gallu ieithyddol neu ddiwylliant. Aeth Borkett (2018) ymlaen i ddweud dylai'r ymarferwyr fel tîm dod o hyd strategaethau i drafod sut mae'r lleoliad gallu fod yn fwy cynhwysol.

Yn ôl Early Years Careers (2016) wrth arsylwi datblygiad plentyn mae'n bwysig i ymarferwyr i ddeall nid llenwi gwaith papur am eu datblygiad yw arsylwi, ond i ystyried yn rhyngweithiad y plentyn gyda phlant eraill. Wrth ryngweithio gyda phlant, mae ymarferwyr yn gallu cael mewnwleidiad i mewn i ddatblygiad y plentyn, a deall sut maen nhw'n dysgu a pa fath o gefnogaeth mae eisiau rhoi yn ei le i ymestyn a helpu ei ddysgu yn fwy (Early Years Careers, 2016). Noda (Llywodraeth Cymru 2022) bod ymarferwyr yn credu bod arsylwi yw'r modd gorau i gynnal asesiadau. Credant nhw hyn oherwydd mae arsylwi yn darparu "tystiolaeth gyfoethog" o ran beth mae dysgwyr yn deall â'n yn gallu gwneud (Llywodraeth Cymru 2022). Mae ymarferwyr yn disgrifio bod y ffordd maent yn arsylwi, dydy'r plant ddim yn gwybod eu bod nhw'n cael i arsylwi (Llywodraeth Cymru 2022). Dywed Froebel Trust (2022) bod arsylwi yn cael i

ddefnyddio er mwyn creu perthynas gyda rhieni, gofalwyr ac ymarferwyr i drafod datblygiad y plentyn, a rhoi enghraifft o ei chwarae a dysgu.

Dywed Early Years Matters (dim dyddiad) bod arsylwi yn hanfodol i blant oherwydd mae ganddyn nhw set unigryw o alluoedd a thalentau, sydd yn cael i dal gan arsylwi. Mae arsylwi plant hefyd yn dangos i ymarferwyr beth mae plant yn dewis ei gwneud, ei diddordebau a'r fath o adnoddau maen nhw'n hoffi chwarae gyda, sydd yn rhoi gwybodaeth i'r ymarferwyr am anghenion y plentyn er mwyn creu cynllun iddyn nhw symud ymlaen (Early Years Matters, dim dyddiad). Creda Froebel mai rôl yr oedolyn oedd arsylwi'r plant a deall y cymorth yr oedd ei angen ar y plant o fewn y blynyddoedd cynnar, gan fod cefnogaeth yn wahanol yn hwyrach yn fywyd (Brodie, 2013). Aeth Brodie (2013) ymlaen i ddweud, roedd Froebel yn meddwl am y plentyn yn ganolog, roedd ên enwog am wrando ar y plentyn. Noda Froebel Trust (2022) un dull o arsylwi yw eistedd nôl ac arsylwi yn dawel trwy ysgrifennu neu gymryd lluniau o beth mae'r plant yn gwneud. Trwy arsylwi, sylweddolodd Froebel y pwysigrwydd o'r plentyn unigryw, trwy werthfawrogi a chefnogi profiadau, priodoleddau a rhinweddau amrywiol y plentyn (Froebel Trust, 2022). Hefyd, ei amrywiaeth trwy ddeall ei pherthynas gyda'r byd o'u hamgylch (Froebel Trust, 2022). Yn debyg i ddull Froebel o gymryd lluniau o'r plant trwy arsylwi, mae Reggio Emilia yn defnyddio dull 'dogfennaeth.' Yn ôl Child Discovery Centre (dim dyddiad) mae dogfennaeth yn ddull o gasglu gwybodaeth, arsylwadau a dysgu er mwyn i ymarferwyr i adnabod cryfderau, syniadau a'r camau nesaf i gefnogi'r plentyn. Mae'r ddogfennaeth yn cael i wneud mewn ffurfiau arsylwi fel, ffotograffau, fideos, trawsgrifiad, ond hefyd trwy ffurfiau gweledol sef paent, clai, gwifren a defnyddiau creadigol (Child Discovery Centre, dim dyddiad).

Yn ôl Early Years Matters (dim dyddiad) mae asesu yn cael i wneud pob diwrnod i greu dewisiadau am beth mae'r plentyn wedi dysgu a beth mae'r plentyn yn gallu gwneud, er mwyn i'r plentyn symud ymlaen gyda'i dysgu sydd weithiau yn cael i alw yn asesu ffurfiannol. Dywed Twinkl (dim dyddiad) bod asesu ffurfiannol yw'r ymarferwyr yn monitro dysgu'r plant gan ddarparu adborth rheolaidd ac amserol ar beth maen nhw wneud yn dda a beth mae angen iddyn nhw wella arno. Noda Early Years Matters (dim dyddiad) bod yna dull arall o asesu sef asesiad crynodedol, sydd yn cael i wenud am blant 24 i 36 mis. Mae'r canlyniad o'r dull yma o asesu yn cael i recordio ac mae rhieni ac ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth i adnabod cryfderau'r plentyn a'i anghenion dysgu (Early Years Matters, dim dyddiad). Noda Early Years

Matters (2011) bod rhaid ystyried pob plentyn yn y grŵp wrth asesu, oherwydd mae gan bob plentyn datblygiad unigrywdd a diddordebau gwahanol. Aeth Early Years Matters (2011) ymlaen i ddweud bo plant yn datblygu yn ffurfiau unigol ym mhob rhan o ddatblygiad, sef corfforol, gwybyddol, ieithydd, cymdeithasol ac emosiynol.


Un dull o wlad arall sy'n cael i ddefnyddio er mwyn asesu plant yw 'learning stories' sydd cael i ddefnyddio yn Seland Newydd sef y cwricwla Te Whariki. Yn ôl Lee *et al.* (2013) mae asesiadau yn cael i ysgrifennu fel stori o ddysgu, sydd yn stori sydd wedi cael i ysgrifennu i'r plentyn ar deulu i gydnabod natur gymhleth dysgu sy'n cynnwys goblygiadau effeithiol, cymdeithasol ac ysgogol. Mae dull yma o asesu yn cael i ddisgrifio fel grym pwerus o ddysgu (Lee *et al.*, 2013). Dywed NAEYC (2015) er mwyn ysgrifennu 'learning stories', mae tagen i'r ymarferwyr edrych allan am chwarae'r plentyn sef sut mae'r plentyn yn arwain ei chwarae gan ddefnyddio ei chreadigedd, syniadau a diddordebau. Hefyd, y perthnasau mae'r plentyn yn gwneud sef perthynas gyda phlant eraill, yr ymarferwyr neu'r defnyddiau mae'r plentyn yn defnyddio (NAEYC, 2015). Noda Kiddyhub (dim dyddiad) bod y dull yma o arsylwi rhoi mynediad i rieni a gofalwyr i ddatblygiad ei phlentyn. Mae 'learning stories' yn ffordd unigryw o asesu na'r ffordd draddodiadol o restr, mae'n format sydd yn cael i ddeall yn rhwydd a gwenud hi'n fwy diddorol i rieni i ddarllen (Kiddyhub, dim dyddiad).

Yng Nghymru roedd yna ddull asesu o enw 'proffil cyfnod sylfaen' sef ffurf o asesu i gefnogi dysgu a datblygiad y plentyn trwy gydol ei hamser yn y cyfnod sylfaen (Llywodraeth Cymru, 2015). Dywed Llywodraeth Cymru (2015) ei phrif bwrpas yw darparu asesiad sylfaenol cyson yn genedlaethol sy'n cyd-fynd â chanlyniadau diwedd y cyfnod. Trwy asesiadau ffurfiannol ac arsylwadau mae'r proffil yn cefnogi ymarferwyr i ddarparu cwricwla holistaidd datblygiadol i bob plentyn (Llywodraeth Cymru, 2015). Fodd bynnag, mae'r ffordd mae Cymru yn asesu yn newid oherwydd y diwygiad i'r Cwricwlwm i Gymru. Yn ôl Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) mae'r cwricwlwm i Gymru yn newid er mwyn i athrawon ac ymarferwyr, i ddatblygu cwricwlwm ei hun. Mae'r ffordd maen nhw'n asesu hefyd yn cael i gynllunio gan ei hun, ond rhaid iddyn nhw ddilyn 3 rheswm allweddol, hynny yw, cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, nodi, cipio a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol a deall cynnydd grŵp er mwyn myfyrio ar arfer (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad).

Rhan 3:

Beth yw lles?

Yn ôl Mind (2020) mae lles yn cael i ddefnyddio er mwyn trafod sut ydyn yn teimlo, fel ydyn ymdopi gyda bywyd pob dydd a beth sydd yn teimlo'n bosibl ar y foment. Dydy lles ddim yn golygu ein bod yn teimlo'n hapus trwy'r amser neu ddim wedi cael i effeithio gan brofiadau, ond mae less gwael yn gallu gwenud hi'n anodd ymdopi gyda bywyd pob dydd (Mind, 2020). Dywed Multi Comfort UK (2018) bod lles hefyd yn cael i ddisgrifio fel cyflwr o fod yn gyfforddus, iach neu'n hapus. Mae lles yn cael i effeithio gan ansawdd bywyd unigolyn sef iechyd corfforol, cyflwr seicolegol, credoau personol a pherthnasau cymdeithasol a pherthynas â'r cymuned (Multi Comfort, 2018). Noda NSPCC Learning (2021) y pwysigrwydd o hyrwyddo lles plant a phobl ifanc er mwyn cadw nhw'n ddiogel, helpu nhw i ddatblygu a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i fydd oedolion. Aeth NSPCC Learning (2021) ymlaen i ddweud mai iechyd meddwl yn rhan allweddol yn lles plentyn a gallu cael i effeithio gan yr amgylchedd, straen, amgylchiadau teuluol, camdriniaeth ac esgeulustod. Dywed NSPCC Learning (2021) dylai unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc cael cyfrifoldeb i hyrwyddo ei lles ac adnabod unrhyw bryderon am lesiant y plentyn a beth i wneud i gadw plant yn ddiogel. Yn dilyn erthygl 6 y CCUHP, mae pob plentyn ar hawl i gael bywyd (Comisiynydd Plant Cymru, 2022). Cefnoga hyn hefyd gan hierarchaeth Maslow sef y dosbarthiad o anghenion sylfaenol (Lester, 2013).



(Wikipedia, 2006)



(Parklands Primary School, dim dyddiad)

Ydy'r pandemig coronafeirws wedi cael effaith ar lles ac addysg plant?

Mawrth 2020, daeth y byd i gyd i stop a chlo mawr oherwydd y pandemig coronafeirws, roedd ysgolion ar gau a dathliadau wedi dod i ben ac aeth yr holl addysg i ddysgu ar-lein (Children's Commissioner, 2020). Dywed Children's Commissioner (2020) bod plant wedi cael trafferth gyda'r gofynion o ddysgu o adref ar unigrwydd a ddaeth o ynysu cymdeithasol. O ganlyniad i'r pandemig, mynna Buchanan, Hargreaves a Quick (2022) bod iechyd meddwl a lles o lawer o bobl, yn cynnwys plant wedi cael i effeithio. Roedd cynydd o 1 mewn 9 o bobl ifanc a phant wedi adrodd am broblemau iechyd meddwl yn 2017, ond yn 2020 aeth hyn i 1 o 6 (Buchanan, Hargreaves a Quick, 2022). Dywed Gov.UK (2020) rhai o'r heriau hwynebwyd oedd ynysu wrth ffrindiau, dysgu o adref neu bryderon bod aelodau o'r teulu yn cwmpo'n yn sâl. Fodd bynnag, un peth positif ddaeth allan o'r adroddiad oedd bod rhai rhieni wedi gwella ei pherthynas gyda'i phlant ac roedd mwyafrif o blant yn gallu treulio amser tu allan (Gov.UK, 2020).

Un peth arall a chaeth i effeithio yn ystod y pandemig ac yn dilyn y pandemig oedd tlodi, mae amcangyfrif o 4 miliwn o blant a phobl ifanc yn byw mewn tlodi cyn i'r pandemig dechrau Children's Society (2020). Aeth Children's Society (2020) ymlaen i ddweud bod y costau byd wedi cynyddu i deuluoedd oherwydd bod plant adref, ond, oherwydd y clo mawr roedd enillion rhieni yn debygol o leihau. O ganlyniad i hyn, dywed Children's Society (2020) bod teuluoedd yn cael traffaeth gyda chost bwyd a hanfodion eraill. Aeth y Deyrnas Unedig i mewn i'r pandemig yn dilyn degawd o amddifadedd oherwydd y newidiadau o bolisïau, wnaeth castiau cynyddu, ac roedd chefnogaeth ddiogel gymdeithasol i stopio (Joseph Rwentree Foundation, 2021). Ar ddechrau'r pandemig, wnaeth y Llywodraeth dewis cynyddu credyd cynhwysol gan £20 yr wythnos oherwydd doedd y system o gefnogaeth ddim yn ddigon i amddiffyn pobl o niwed (Joseph Rwentree Foundation, 2021).

Beth sy'n cael i wneud yn addysg er mwyn hyrwyddo lles y plant?

Un peth sy'n wedi cael i gyflwyno yng Nghymru i helpu lles plant yw 'Dechrau'n Deg.' Yn ôl Llywodraeth Cymru (2015) mae Dechrau'n Deg yn rhaglen blynnyddoedd cynnar sydd â nod i roi dechrau da i bob plentyn gyda phwyslais ar ymyriadau ar sail tystiolaeth a gynlluniwyd i wella canlyniadau iechyd, datblygiadol a gwybyddol ymhlith plant 0 - 3 oed. Dywed The Venture (dim dyddiad) bod Dechrau'n Deg hefyd yna i drechu tlodi, mae'r cynllun yma yn targedu gwasanaeth i deuluoedd sydd yn byw

mewn ardaloedd dan anfantais. Mae'r plant yn gallu dechrau yn lleoliadau Dechrau'n Deg ar ôl eu hail ben-blwydd hyd a 3 oed (The Venture, dim dyddiad). Aeth The Venture (dim dyddiad) i ddweud bod y rhaglen i helpu plant i elwa profiadau trwy chwarae, i wneud dewisiadau, creu dysgu ei hun a dechrau arbrofi a datblygu potensial a galluoedd ei hun. Mae rhaglen wedi bod yn llwyddiannus, oherwydd hyn mae Llywodraeth Cymru yn edrych i ehangu gofal plant gyda Dechrau'n Deg erbyn Hydref 2022, ac mae £20 miliwn ychwanegol yn cael i fuddsoddi dros 3 mlynedd nesaf i gefnogi'r estyniad (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg, o dan erthygl 28 y CCUHP (Comisiynydd Plant Cymru, 2022).

Mae Cymru hefyd wedi cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob Ysgol Gynradd, yng Nghymru. Dywed Llywodraeth Cymru (2022) o Fedi 2022, bydd y plant ifancaf yn Ysgolion Cynradd yng Nghymru, yn derbyn prydau bwyd am ddim ar gyflwyniad graddol i blant ysgol yn y tair flwyddyn nesaf. Eto, yn dilyn y CCUHP, yn erthygl 24 mae gan bob plentyn yr hawl i dŵr glan, bwyd maeth ac amgylchedd glan, sydd i gyd yn cael i ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyflwyniad yma hefyd yn cefnogi teuluoedd trwy argyfwng costau byw (Llywodraeth Cymru, 2022).

Yn olaf, un peth arall sy'n cael i wneud yn Y Deyrnas Unedig yw'r 'The Daily Mile.' Dywed The Daily Mile (dim dyddiad) bod y gweithgaredd yn gorfforol, gyda phlant yn rhedeg, loncian neu olwyno ar rediad ei hun, yn yr awyr agored. Y nod yw i blant i redeg, loncian neu olwyno am 15 munud, er mwyn gwella ei lles a sgiliau corffol (The Daily Mile, dim dyddiad). Gaeth yn i ddechrau oherwydd y cynnydd yn ordewdra a dim llawer o sgiliau corfforol gan blant (The Daily Mile, dim dyddiad). Dywed Healthy Children (2022) mae bod tu allan beth bynnag yw'r tywydd yn dda i blant, oherwydd mae'n gwella iechyd ac mae plant yn hoffi fod tu allan. Aeth Healthy Children (2022) ymlaen i ddweud bod plant yn chware yn galetach tu allan, sydd yn gallu datblygu a gwella datblygiad echddygol ac yn lleihau gordewdra plant. Mae profiadau tu allan hefyd yn rhoi chwilfrydedd, creadigaeth a gwneud i blant i feddwl yn fierniadol (Healthy Children, 2022).



(Clipground, 2020)



(Clipground, 2020)

Rhestr Cyfeirnod

Arseven, A. (2014) 'The Reggio Emilia Approach and Curriculum Development Process', *International Journal of Academic Research*, 6(1), pp. 166 – 171. DOI: 0.7813/2075-4124.2014/6-1/B.23 (Darllenwyd: 25^{ain} o Hydref 2022)

Blaiklock, K. (2010) 'Te Whāriki, the New Zealand early childhood curriculum: Is it effective?' *International Journal of Early Years Education*, 18, 201-212. Ar gael o: <https://www.researchbank.ac.nz/bitstream/handle/10652/1765/Blaiklock%2C%20K.%2C%20%202010.%20%20Effectiveness%20of%20%20Te%20Wh%C4%81riki.pdf?sequence=1&isAllowed=y> (Darllenwyd: 26^{ain} o Hydref 2022)

Borkett, P. (2018) *Cultural diversity and inclusion in early years education*. 1st edn. London: Routledge. (Darllenwyd: 23^{ain} o Hydref 2022)

Brue, T. (2012) *Learning through play, for babies, toddlers and young children*. Hachette UK. (Darllenwyd: 19^{eg} o Hydref 2022)

Buchanan, D., Hargreaves, E. and Quick, L. (2022) 'Schools closed during the pandemic: revelations about the well-being of 'lower-attaining' primary-school children,' *Education*, 3-13. DOI: 10.1080/03004279.2022.2043405 (Darllenwyd: 29^{ain} o Hydref 2022)

Clipground (2020) *Food clipart kids*. [Delwedd]. Ar gael o: <https://clipground.com/food-clipart-kids.html> (Darllenwyd: 30^{ain} o Hydref 2022)

Clipground (2020) *Kids being active*. [Delwedd]. Ar gael o: <https://clipground.com/kids-being-active-clipart.html> (Darllenwyd: 30^{ain} o Hydref 2022)

Comisiyndd Plant Cymru (2022) *Know your rights*. Ar gael o: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2022/04/CCfW-A2-Rights-Poster-ENGLISH-AW-Rocio.pdf> (Darllenwyd: 18^{fed} o Hydref 2022)

Child Discover Centre (dim dyddiad) *What is the Reggio Emilia Approach?* Ar gael o: <https://childdiscoverycenter.org/non-traditional-classroom/what-is-the-reggio-emilia-approach/#:~:text=The%20Reggio%20Emilia%20philosophy%20is%20an%20approach%20to,help%20children%20expand%20their%20academic%20and%20social%20potentials>. (Darllenwyd: 28^{ain} o Hydref 2022)

Children's Commissioner (2020) *How lockdown affected children's stress and anxiety*. Ar gael o: <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/2020/09/30/how-lockdown-affected-childrens-stress-and-anxiety/> (Darllenwyd: 29^{ain} o Hydref 2022)

Chwarae Cymru (2014) *What is play and why is it important?* Ar gael o: https://issuu.com/playwales/docs/what_is_play_and_why_is_it_importan?e=5305098/10231329 (Darllenwyd: 20^{fed} o Hydref 2022)

Donaldson, G. (2015) 'Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru,' Ar gael o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Darllenwyd: 15^{fed} o Hydref 2022)

Early Years Careers (2016) *5 'must have' staff training courses for Early Years*. Ar gael o: <https://www.earlyyears-careers.com/eyc/early-years-management/5-must-staff-training-courses-early-years/> (Darllenwyd: 20^{fed} o Hydref 2022)

Early Years Careers (2016) *Observing and assessing children's development*. Ar gael o: <https://www.earlyyears-careers.com/eyc/learning-and-development/observing-and-assessing-childrens-development/> (Darllenwyd: 24^{ain} o Hydref 2022)

Early Years Matters (2011) *A Unique Child: Child Development*. Ar gael o: https://www.earlyyearsmatters.co.uk/wp-content/uploads/2011/03/eyfs_card_unique_child_dev1.pdf (Darllenwyd: 30^{ain} o Hydref 2022)

Early Years Matters (dim dyddiad) *A Unique Child*. Ar gael o: <https://www.earlyyearsmatters.co.uk/eyfs/a-unique-child/> (Darllenwyd: 23^{ain} o Hydref 2022)

Early Years Matters (dim dyddiad) *Obsevation, Assessment and Planning*. Ar gael o: <https://www.earlyyearsmatters.co.uk/eyfs/a-unique-child/planning/> (Darllenwyd: 28^{ain} o Hydref 2022)

Education Business (2017) *Schools lack funding teacher for training, report shows*. Ar gael o: <https://educationbusinessuk.net/news/03022017/schools-lack-funding-teacher-training-report-shows> (Darllenwyd: 25^{ain} o Hydref 2022)

Froebel Trust (2022) *Observing young children*. Ar gael o: https://www.froebel.org.uk/uploads/documents/FT_Observing-young-children_Pamphlet_INTERACTIVE_REV-2.pdf (Darllenwyd: 28^{ain} o Hydref 2022)

Gov.UK (2020) *Effect of pandemic on children's wellbeing revealed in new report*. Ar gael o: <https://www.gov.uk/government/news/effect-of-pandemic-on-childrens-wellbeing-revealed-in-new-report> (Darllenwyd: 29^{ain} o Hydref 2022)

Gov.UK (dim dyddiad) *The national curriculum*. Ar gael o: <https://www.gov.uk/national-curriculum> (Darllenwyd: 10^{fed} o Hydref 2022)

Healthy Children (2022) *Playing Outside: Why It's Important for Kids*. Ar gael o: <https://healthychildren.org/English/family-life/power-of-play/Pages/playing-outside-why-its-important-for-kids.aspx> (Darllenwyd: 30^{ain} o Hydref 2022)

High Speed Training (2018) *The Consequences of a Lack of Training in the Workplace*. Ar gael o: <https://www.highspeedtraining.co.uk/hub/lack-of-training-in-the-workplace/> (Darllenwyd: 26^{ain} o Hydref 2022)

Institute of Welsh Affairs (2019) *Funding education in Wales*. Ar gael o: <https://www.iwa.wales/agenda/2019/07/funding-education-in-wales/> (Darllenwyd: 25^{ain} o Hydref 2022)

Joseph Rowntree Foundation (2021) *Rising poverty among children and pensioners shows why Covid inquiry must consider its impact*. Ar gael o: <https://www.jrf.org.uk/press/rising-child-and-pensioner-poverty-shows-why-covid-inquiry-must-consider-its-impact> (Darllenwyd: 30^{ain} o Hydref 2022)

Kiddyhub (dim dyddiad) *What is Learning Stories and what benefits does it offer?* Ar gael o: <https://www.kindyhub.com.au/what-is-a-learning-story-and-what-benefits-does-it-offer/> (Darllenwyd: 30^{ain} o Hydref 2022)

Lee, W. et al. (2013) *Understanding the Te Whāriki approach: Early years education in practice*. 1st edn. London: Routledge. (Darllenwyd: 28^{ain} o Hydref 2022)

Lester, D. (2013) 'Measuring Maslow's Hierarchy of Needs', *Psychological reports*, 113(1), pp.15-17. Ar gael o: <http://modir3-3.ir/article-english/ISI/english25-168.pdf> (Darllenwyd: 30^{ain} o Hydref 2022)

Llywodraeth Cymru (2015) *Foundation Phase Profile Handbook*. Ar gael o: <https://hwb.gov.wales/api/storage/f9d85dba-85a4-4e87-bb58-a24730ad7e57/foundation-phase-profile-handbook-revised-september-2017.pdf>

(Darllenwyd: 28^{ain} o Hydref 2022)

Llywodraeth Cymru (2019) *Preparing for the new curriculum*. Ar gael o: <https://gov.wales/preparing-new-curriculum> (Darllenwyd: 27^{ain} o Hydref 2022)

Llywodraeth Cymru (2022) *£25m to kick-start free school meals for all primary school children in Wales*. Ar gael o: <https://gov.wales/25m-kick-start-free-school-meals-all-primary-school-children-wales> (Darllenwyd: 29^{ain} o Hydref 2022)

Llywodraeth Cymru (2022) *Flying Start expanded in Wales*. Ar gael o: <https://gov.wales/flying-start-expanded-wales> (Darllenwyd: 29^{ain} o Hydref 2022)

Llywodraeth Cymru (2022) *Ymchwil i Arferion Asesu yn y Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol*. Ar gael o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2022-07/ymchwil-i-arferion-asesu-yn-y-cyfnod-sylfaen.pdf> (Darllenwyd: 24^{ain} o Hydref 2022)

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) *Beth sy'n newid mewn asesu?* <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/trefniadau-asesu/beth-syn-newid-mewn-asesu/> (Darllenwyd: 30^{ain} o Hydref 2022)

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) *Education is changing*. Ar gael o: <https://gov.wales/education-changing> (Darllenwyd: 27^{ain} o Hydref 2022)

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) *Chwarae/dysgu Gweithredol*. Ar gael o: <https://hwb.gov.wales/storage/9d36d456-62c8-4670-b957-a4395ebe9099/chwarae-dysgu-gweithredol-trosolwg-ar-gyfer-plant-3-i-7-oed.pdf> (Darllwnwyd: 15^{fed} o Hydref 2022)

McInners, K. et al. (2011) 'Difference in practitioners' understanding of play and how this influences pedagogy and children's perceptions of play.' *Early Years*, 31(2), pp.121-133. Ar gael o: <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/09575146.2011.572870> (Darllenwyd: 21^{ain} o Hydref 2022)

McLeod, S.A. (2014) *Lev Vygotsky*. Ar gael o: <https://sites.google.com/site/pltlearningcontent/overview-theorists/lev-semyonovich-vygotsky> (Darllenwyd: 26^{ain} o Hydref 2022)

Mind (2020) What is mental wellbeing? Ar gael o: <https://www.mind.org.uk/information-support/tips-for-everyday-living/wellbeing/wellbeing/> (Darllenwyd: 29^{ain} o Hydref 2022)

Moyles, J (2014) *The Excellence of Play*. McGraw-Hill Education (UK). (Darllenwyd: 21^{ain} o Hydref 2022)

Multi Comfort UK (2018) *What is wellbeing* [Fideo]. Ar gael o: <https://www.youtube.com/watch?v=mxz8KyV3Ydc> (Darllenwyd: 29^{ain} o Hydref 2022)

NAEYC (2015) *Learning Stories*. Ar gael o: <https://www.naeyc.org/resources/pubs/tyc/dec2015/learning-stories> (Darllenwyd: 30^{ain} o Hydref 2022)

NSPCC Learning (2021) *Promoting mental health and wellbeing*. Ar gael o: <https://learning.nspcc.org.uk/child-health-development/promoting-mental-health-wellbeing> (Darllenwyd: 29^{ain} o Hydref 2022)

Parkland Primary School (dim dyddiad) *Well-being*. [Delwedd]. Ar gael o: <https://parklands.northants.sch.uk/wellbeing/> (Darllenwyd: 30^{ain} o Hydref 2022)

Professional Association for Childcare and Early Years (dim dyddiad) *Why your training and development is important*. Ar gael o: <https://www.pacey.org.uk/training-and-qualifications/the-importance-of-training-and-cpd/> (Darllenwyd: 21^{ain} o Hydref 2022)

Raising Children (2022) *Letting your child lead play: activities for children 0-6 years*. Ar gael o: <https://raisingchildren.net.au/guides/activity-guides/imagination-and-make-believe/letting-your-child-lead-play> (Darllenwyd: 25^{ain} o Hydref 2022)

Sage-Answer (2019) *What is the meaning of child centred curriculum?* Ar gael o: <https://sage-answer.com/what-is-the-meaning-of-child-centered-curriculum/#:~:text=Child%20Centered%20Learning.%20Student-centered%20learning%20%28also%20called%20child->

[centered,process%2C%20such%20as%20teachers%20and%20administrators.%20Child-centered%20Curriculum](#) (Darllenwyd: 25^{ain} o Hydref 2022)

Siraj, I., and Kingston, D. (2014) An independent stocktake of the Foundation Phase in Wales. Final report September 2013 – March 2014. Welsh Government: Department for Education and Skills. Ar gael o: <https://dera.ioe.ac.uk/20340/1/140519-independent-stocktake-of-the-foundation-phase-in-wales-en.pdf> (Darllenwyd: 21fed o Hydref 2022)

Twinkl (dim dyddiad) *Child-initiated Play*. Ar gael o: <https://www.twinkl.co.uk/teaching-wiki/child-initiated-play> (Darllenwyd: 25^{ain} o Hydref 2022)

Twinkl (dim dyddiad) *What is a Formative Assessment?* Ar gael o: <https://www.twinkl.co.uk/teaching-wiki/formative-assessment> (Darllenwyd: 28^{ain} o Hydref 2022)

The Children's Society (2020) *Impact of COVID-19 on young people*. Ar gael o: <https://www.childrenssociety.org.uk/information/professionals/resources/impact-of-covid-19-on-young-people> (Darllenwyd: 30^{ain} o Hydref 2022)

The Daily Mile (dim dyddiad) *About The Daily Mile*. Ar gael o: <https://thedailymile.co.uk/about/> (Darllenwyd: 30^{ain} o Hydref 2022)

The Venture (dim dyddiad) *Dechrau'n Deg*. Ar gael o: <https://www.theventure.wales/flyingstart> (Darllenwyd: 29^{ain} o Hydref 2022)

Wainwright, N *et al.* (2018) 'Playful pedagogy for deeper learning: exploring the implementation of the play-based Foundation Phase in Wales.' Ar gael o: https://repository.uwtsd.ac.uk/id/eprint/1105/1/Wainwright%20et%20al.%202018_EC_DC%20article%20Aug_%20final.pdf (Darllenwyd: 26^{ain} o Hydref 2022)

Whithead, D. *et al.* (2012) The importance of play. *University of Cambridge, Toy Industries of Europe. The importance of play*. (Darllenwyd: 27^{ain} o Hydref 2022)

Wein, C. (2015) *Emergent Curriculum in the Primary Classroom: Interpreting the Reggio Emilia Approach in schools*. Teachers College Press. (Darllenwyd: 25^{ain} o Hydref 2022)

Wikipedia (2006) *Maslow's hierarchy of needs*. [Delwedd]. Ar gael o: https://en.wikipedia.org/wiki/File:Maslow%27s_hierarchy_of_needs.png (Darllenwyd: 30^{ain} o Hydref 2022)

Young, M. (2014) 'What is a curriculum and what can it do?' *Curriculum Journal*, 25(1), pp.7-13. <https://doi.org/10.1080/09585176.2014.902526> (Darllenwyd: 9^{fed} o Hydref 2022)